

Cofnodion

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Teitl y cyfarfod:

Is-grŵp Fforwm Rheoli Tir Cymru ar Lygredd Amaethyddol

Lleoliad: Cyfarfod dros Microsoft Teams

Dyddiad y Cyfarfod: 11 Gorffennaf 2022

Yn bresennol:

Zoe Henderson, CNC (Cadeirydd)

Dennis Matheson, Cymdeithas y Ffermwyr Tenant (TFA)

Marc Williams, CNC

James Ruggeri, HCC

Chris Mills, Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL)

Einir Williams, Cyswllt Ffermio

Shane Thomas, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin

Mathew Walters, Llywodraeth Cymru

Polina Cowley, Llywodraeth Cymru

Nichola Salter, CNC

Sarah Jones, Dŵr Cymru

Sarah Hetherington, CNC

Liz Franks, Hafren Dyfrdwy

Unigolion ychwanegol a oedd yn bresennol:

Dim

Ysgrifenyddiaeth:

Bronwen Martin, CNC

Ymddiheuriadau:

Rachel Lewis-Davies, NFU Cymru

Chris Thomas, CNC

Fraser McAuley, Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad

Andrew Chambers, Llywodraeth Cymru

Kate Snow, United Utilities

Eitem 1 Cyflwyniadau, Ymddiheuriadau a Datganiadau o Fuddiant

1. Croesawodd Zoe Henderson, CNC bawb i'r cyfarfod dros Microsoft Teams gan nodi'r ymddiheuriadau. Sylwer bod y cyfarfod yn cael ei recordio ar gyfer y cofnodion ac y bydd y ffeil ddigidol yn cael ei dileu pan fydd cofnodion y cyfarfod wedi'u cymeradwyo.
2. Gofynnodd Zoe i'r grŵp a oedd unrhyw ddatganiadau buddiant. Cododd Creighton Harvey, Ffederasiwn Pysgotwyr Caerfyrddin ei fod wedi mynychu cinio rhanddeiliaid CNC yn ddiweddar.
 - DS: Mae pob aelod o'r grŵp eisoes wedi llenwi ffurflenni datganiad o fuddiant ond dylent hefyd ddatgan a oes ganddynt fuddiant mewn unrhyw beth ar yr agenda.

Eitem 2 Adolygiad o Gofnodion

3. Cadarnhaodd y Cadeirydd y bydd cofnodion y cyfarfod yn cael eu hadolygu a'u cymeradwyo'n ffurfiol gan y grŵp ac yna'n cael eu cyhoeddi ar wefan CNC lle byddant ar gael i'r cyhoedd. Mae'n bwysig felly fod y cofnodion yn gofnod cywir o'r cyfarfodydd.
4. Adolygodd y grŵp gofnodion y cyfarfod blaenorol a gynhaliwyd ar 16 Mai 2022.
5. Roedd Zoe yn cofio'r drafodaeth am hau rhygwellt dan gnwd ac awgrymodd y dylid cynnwys cam gweithredu penodol i ddarganfod bod cefnogaeth i hau indrawn dan gnwd ond nid rhygwellt. Dywedodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru y byddai'n ymchwilio i hyn.

PG 01 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC i ychwanegu pwynt gweithredu at gofnodion cyfarfod mis Mai 2022 am hau indrawn/rhygwellt o dan gnwd.

6. Tynnodd Zoe hefyd sylw at gamgymeriad teipio ym mhwynt 39 a fydd yn cael ei gywiro cyn cyhoeddi.
7. Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach na gwelliannau awgrymedig mewn perthynas â chofnodion cyfarfod mis Mai.

Eitem 3 Materion yn codi

8. Dyma gyfle i'r grŵp drafod unrhyw faterion sy'n deillio o gofnodion y cyfarfod blaenorol neu ddogfennau perthnasol.
9. Soniodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru fod Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) wedi cyhoeddi ei adroddiad [Adolygiad o Adnoddau Dwr \(Rheoli Llygredd Amaethyddol\) \(Cymru\) 2021](#) ar 8 Mehefin 2022. Mae'r adroddiad yn cynnwys cyfres o argymhellion i Lywodraeth Cymru ymateb iddynt. Bydd ymateb yn cael ei baratoi i'r Gweinidog i'w gyhoeddi maes o law. Awgrymodd Zoe y dylid rhoi'r pwnc ar agenda'r cyfarfod nesaf fel bod modd edrych arno. Gofynnodd Sarah Hetherington, CNC beth yw'r amserlen ar gyfer yr ymateb hwn. Dywedodd Matthew na allai roi ateb pendant o ran amseru ymateb. Dywedodd Chris Mills, WEL bod adroddiad Pwyllgor ETRA yn berthnasol i'r drafodaeth sydd i ddod ar Fesurau Amgen, a gofynnodd am gynnwys dolen i'r adroddiad yng nghofnodion y cyfarfod hwn.

PG 02 Gorffennaf: Bronwen Martin, CNC i gynnwys dolen i adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig (ETRA) yng nghofnodion cyfarfod mis Gorffennaf 2022.

10. Atgoffodd Zoe y grŵp am y gwaith mae Grŵp Goruchwylio Afonydd SAC Llywodraeth Cymru yn ei wneud ar ffosffadau. Mae Zoe yn aelod o'r Grŵp Goruchwylio ac mae wedi awgrymu o'r blaen y dylai fod cynrychiolaeth ychwanegol ar gyfer amaethyddiaeth. Atgoffodd Zoe yr aelodau am gyfarfod yr Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol ym mis Mai, pan argymhellwyd y dylai'r grŵp llygredd amaethyddol ganolbwyntio ar ffosffad hefyd, nid nitradau yn unig. Mae angen inni ddysgu a deall mwy am ffosffadau mewn amaethyddiaeth. Cyhoeddodd Zoe fod Delyth Lewis-Jones, AHDB wedi cytuno i ymuno â Grŵp Goruchwylio Afonydd SAC Llywodraeth Cymru, yn ogystal â chadeirio grŵp bychan am gyfnod cyfyngedig sy'n edrych ar ffosffad o safbwynt amaethyddol. Dywedodd Zoe nad yw aelodaeth o'r grŵp bach yma wedi'i greu eto, ond gofynnodd i'r rhai oedd yn bresennol i feddwl am gynrychiolwyr addas. Soniodd Zoe am gyflwyniad y gwestai yng nghyfarfod mis Mai gan awgrymu y byddai'n wych pe bai Liz Davies neu Bridie Whittle o Sefydliad Afonydd Gwy ac Wysg yn fodlon cymryd rhan.
11. Dywedodd Polina Cowley, Llywodraeth Cymru y byddai'n hoffi cael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y grŵp hwnnw. Soniodd Polina fod yr Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol wedi bod yn canolbwyntio ar nitradau a Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, a byddai'n dda o beth pe bai'r grŵp hefyd yn canolbwyntio ar allyriadau amonia. Er mwyn i'r grŵp hwn allu canolbwyntio ar nitradau ac amonia, awgrymodd Polina y byddai'n briodol symud ffosffad i grŵp arall i ganolbwyntio arno oherwydd ei gysylltiad agos â dofednod. Dywedodd Zoe y byddai'n hoffi cynnwys ffosffadau yn y grŵp hwn er mwyn cydlynu popeth yn dda oherwydd ei fod yn gysylltiedig, er bod angen mwy o ymdrech dros y tymor byr i gyflymu'r mater.
12. Dywedodd Creighton fod y posibilrwydd o reoliadau nitradau yn gysgod dros y grŵp hwn. Soniodd fod y rheoliadau bellach wedi'u cyflwyno, rydym wedi cael y bleidlais ddiddymu ac mae'r adolygiad a'r adroddiad gan Bwyllgor ETRA wedi'u cyhoeddi. Mae'n golygu bod llawer o'n gwaith ni wedi'i wneud ond mae'n rhaid i ni fonitro'r sefyllfa nitradau o hyd. Awgrymodd Creighton nad oes gan y grŵp fawr o ddewis ond ehangu i ffosffad, gan taw grŵp llygredd amaethyddol yw hwn ac nid grŵp nitradau. Roedd Sarah Hetherington, CNC, yn cytuno o safbwynt tail a slyri, ein bod ni'n edrych ar

faetholion ac nad oes modd ystyried un heb y llall, yn ogystal â'r ochr nwyol. Rhaid cadw'r cyfan gyda'i gilydd, neu fel arall, ni fyddwn yn edrych ar y darlun cyflawn. Cytunodd Zoe, gan ddweud mai ychydig o waith ffocws ychwanegol sydd ei angen yn y tymor byr.

Eitem 4 Cyflwyniad a thrafodaeth: Mesurau amgen

13. Chris Mills, WEL yw Cadeirydd y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen a chytunodd i roi diweddariad ar waith y grŵp hwn, rhoi trosolwg o'r Mesurau Amgen arfaethedig a hefyd trafod strwythur yr adroddiad fydd yn cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno cynnig Mesurau Amgen i Lywodraeth Cymru yw 1 Hydref 2022.
14. Dechreuodd Chris drwy ddiolch i aelodau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Mesurau Amgen am eu dyfalbarhad a'u gwaith caled yn adolygu'r rheoliadau ac am weithio'n dda gyda'i gilydd. Mae aelodaeth y grŵp hwn yn cynnwys pobl â chefnidiroedd gwahanol a phrofiadau gwahanol, a fu'n ddefnyddiol wrth gynnig ffordd ymlaen. Hyd yma, mae'r grŵp wedi cyfarfod yn rhithiol, ac efallai bydd angen i ni gwrdd wyneb yn wyneb wrth i ni nesáu at y cyfnod ysgrifennu adroddiad.
15. Cyn y cyfarfod, rhannwyd taenlen excel gydag aelodau Is-Grŵp WLMF a oedd yn dangos hynt y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen. Hefyd, rhannwyd dogfen sy'n trafod rhai o'r materion ehangach hefyd sy'n rhoi trosolwg o rai materion eraill rydyn ni wedi'u hystyried. Mae amlinelliad o strwythur yr adroddiad ar gael ar gyfer sylwadau.
16. Mae'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen wedi rhannu'r Rheoliadau yn dri phwnc allweddol: storio, gwasgaru a chapasiti cario/terfynau nitrogen. Mae pob rheoliad wedi'i adolygu'n fanwl gan y Grŵp ac mae sylwadau wedi'u coladu ar daenlen.
17. Soniodd Chris am rai o'r pwyntiau cyffredinol ar gyfer Mesurau Amgen a drafodwyd gan y grŵp, gan gynnwys:
 - Eglurder iaith yn y rheoliadau, er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon clir, cryno ac addas i ffermwyr a thirfeddianwyr eu deall.
 - Cysondeb termau a ddefnyddir yn y Rheoliadau, e.e., cwrs dŵr/dyfroedd rheoledig/dŵr croyw mewndirol.
 - Gofynion cadw cofnodion – cyd-fynd i â dyddiadau cadw cofnodion presennol, e.e., rhestr da byw. Egluro'r gofynion cadw cofnodion gan gynnwys lle y gall eithriadau fod yn berthnasol.
 - Rheoliadau wedi'u llywio gan dystiolaeth a data e.e., anghenion pridd a chnwd, a gweithgareddau gwasgaru
18. Yn ôl Chris, mae dau brif faes lle gellid cynnig dewisiadau amgen sylweddol. Yn gyntaf, Rheoliadau 18 a 22 sy'n gysylltiedig ag amser gwasgaru. Awgrymodd Chris fod y rheoliadau hyn hefyd yn cysylltu ag adolygiad Pwyllgor ETRA ac argymhelliad 8 yr adroddiad. Trafododd Chris broses feddwl y grŵp am ddewis arall, gan gynnwys y cyfle posibl i gofleidio technoleg newydd. Mae'r ail faes allweddol yn ymwneud â'r capasiti

cario lle mae Rheoliad 4 yn nodi cyfanswm y terfyn nitrogen o 170kg/ha ar gyfer daliadau cyfan. Gellid cynnig rhanddirymiad i gynyddu cyfanswm y terfyn nitrogen fesul daliad o 170kg/ha i 250kg/ha os gweithredir cynllun rheoli a chofnodi maethol llawn a'i gyflwyno i ddangos nad oes unrhyw effaith niweidiol i'r amgylchedd. Fodd bynnag, mae'n bwysig cael ffermwyr i ddeall beth all eu pridd ei gymryd a'r hyn sydd ei angen ar y cnydau. Mae'r broses hon yn chwilio am system sy'n caniatáu mwy o hyblygrwydd a gallai cynlluniau rheoli maetholion unigol fod yn ffordd addas ac effeithiol ymlaen.

19. Dywedodd Chris y byddai'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen yn croesawu unrhyw sylwadau neu adborth ar y dogfennau sydd wedi'u dosbarthu i aelodau Is-Grŵp WLMF. Hefyd, gofynnodd Chris i'r aelodau ddarparu enghreifftiau o dystiolaeth a allai gefnogi'r gwaith hwn.

PG 03 Gorffennaf: Aelodau'r Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol i ddarparu sylwadau neu adborth ar ddogfennau'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen erbyn 29 Gorffennaf 2022.

PG 04 Gorffennaf: Aelodau'r Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol i ddarparu enghreifftiau o dystiolaeth a allai gael eu defnyddio gan y Grŵp Gorchwyl a Gorffen ar Fesurau Amgen.

20. Cyfeiriodd Sarah Hetherington, CNC at y drafodaeth am gynlluniau rheoli maetholion, ond y peth allweddol yw eu rhoi ar waith a dangos tystiolaeth o hynny. Gofynnodd Sarah a oedd hynny'n rhan o'r trafodaethau neu a oedd yn ymwneud â chael y cynlluniau yn unig. Dywedodd Chris y byddai angen i ffermwyr roi tystiolaeth iddyn nhw, ac yna mae'n cwestiynu'r adnoddau i graffu arnynt. Dywedodd Sarah ei bod yn wych bod y drafodaeth wedi mynd y tu hwnt i gynlluniau maetholion yn unig. O ran angen pridd a chnydau, soniodd Sarah fod gwaith yn parhau yn Lloegr sy'n dangos bod rhaid i'r anghenion pridd a chnydau fod ar adeg gwasgaru ac nid o reidrwydd ar gyfer twf cnydau'r tymor nesaf, yn enwedig os yw'n cael ei wasgaru yn yr hydref. Wrth ddiffinio anghenion pridd a chnydau adeg gwasgaru, gofynnodd Sarah a oedd angen gwneud hynny adeg cyfnod gwasgaru neu wrth baratoi dros y gaeaf ar gyfer twf y tymhorau nesaf. Dywedodd Chris nad yw'r grŵp wedi diffinio hynny eto, a gofynnodd a allai Sarah ddarparu unrhyw gysylltiadau â'r dystiolaeth am pam y dylai fod ar adeg gwasgaru.

PG 05 Gorffennaf: Sarah Hetherington, CNC i ddarparu cysylltiadau â thystiolaeth ynglŷn ag anghenion pridd a chnydau.

21. Soniodd Creighton am y defnydd o dechnoleg newydd a dywedodd fod y [Cynllun Ffermio Cynaliadwy - cynigion bras ar gyfer 2025](#) yn cyfeirio at y defnydd o dechnoleg amgen ac arloes. Mae hyn yn awgrymu y bydd rhywfaint o gefnogaeth gan Lywodraeth Cymru i hynny ac maen nhw'n cydnabod y gallai technoleg newydd fod yn ffordd ymlaen. O ran capasiti cario a rhanddirymiad posibl, ailadroddodd Creighton y pryder y dylai tystiolaeth brofi na fydd rhanddirymiad yn arwain at niwed i'r amgylchedd; nid dim ond achos o gyflwyno rhanddirymiad a gweld beth sy'n digwydd.

22. Holodd Zoe am drafodaethau'r grŵp ynghylch natur 'Cymru gyfan' y Rheoliadau, yn enwedig mewn perthynas â'r ffermwyr hynny a oedd yn ei ystyried yn ofyniad beichus. Dywedodd Chris fod barn y grŵp yn rhanedig. Y ddadl dros y rheoliadau 'traws-Cymru' yw y byddai'n llawer symlach i orfodi ac efallai atal y broblem rhag symud o un ardal i'r

llall. Y ddadl yn erbyn rheoliad traws-Cymru, yw bod ffermydd lle nad yw'r rheoliadau hyn o bwys ac efallai fod pobl yn poeni'n ormodol ar hyn o bryd am faich a/neu gostau ychwanegol. Efallai mai problem gyfathrebu yw hyn i ryw raddau, problem sydd angen mynd i'r afael â hi er mwyn tawelu meddyliau pobl mewn rhai sefyllfaoedd lle mae'r rheoliadau'n rhai traws-Cymru, ond na fyddai'n berthnasol iddyn nhw mewn gwirionedd. Cyfeiriwyd at fater arall yn ymwneud â biosolidau, a'r ffaith y byddai'r dull traws-Cymru bron yn sicr yn creu costau ychwanegol ar gyfer gwasgaru biosolidau o'r diwydiant dŵr. Mae angen ystyried hynny oherwydd byddai sgil-ffaith a chost ychwanegol ar ryw adeg yn cael ei drosglwyddo i'r sawl sy'n talu'r ffi, a chyda'r argyfwng costau byw ar hyn o bryd, ni fyddai llawer o groeso i hyn. Awgrymodd Chris efallai na fydd y pwnc hwn yn cael ei ddatrys gan y grŵp, ond gallai'r adroddiad sôn am y manteision a'r anfanteision i'w hystyried. Cytunodd Zoe fod cyfathrebu'n hollbwysig a bod angen tynnu sylw yn glir at bwytiau allweddol fel nad yw ffermwyr yn poeni'n ormodol amdano.

23. Roedd Creighton yn cofio cymryd rhan mewn gweminar Cyswllt Ffermio ynglŷn â'r Rheoliadau, a nododd fod yna broblem gyfathrebu enfawr. Dywedodd Creighton fod 114 o ffermwyr ar yr alwad sydd ddim llawer o ystyried faint o ddaliadau amaethyddol sydd yng Nghymru. Awgrymodd Creighton fod pobl yn tueddu i wrando ar farn y diwydiant sy'n dweud bod baich cyffredinol, ond nid yw'r baich wedi'i egluro'n iawn, er enghraifft efallai y bydd baich gweinyddol ond yn ymarferol efallai na fydd baich o gwbl.
24. Dywedodd Chris fod trafodaethau helaeth wedi bod ynghylch a ddylai'r Rheoliadau hyn gynnwys ffosffad. Mewn gwirionedd, mae'r Rheoliadau presennol yn defnyddio nitradau fel dirprwy ar gyfer ffosffad, a dylai rhagdybiaeth rheoli lefelau nitradau hefyd reoli lefelau ffosffad. Roedd y grŵp o'r farn na fyddai hyn bob amser yn wir, er enghraifft, bydd angen rheoli tail dofednod sy'n cynnwys lefel uchel o ffosfforws yn fwy gofalus, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â lefelau uchel o ffosffad etifeddol. Tynnwyd sylw at y ffaith bod ateb syml yn dychwelyd at y syniad o gynlluniau rheoli maethol penodol oedd yn cyfrif am y maetholion gweddilliol yn angen y pridd a'r cnydau.
25. Dywedodd Creighton fod y sefyllfa wedi newid ers i'r Rheoliadau ddod i rym ar 1 Ebrill 2021. Cyflwynwyd y Rheoliadau ar sail nitrad sy'n berthnasol i'r cynlluniau rheoli maetholion a gwasgaru maetholion. Os bydd hyn yn newid o ran mesurau gwahanol, bydd angen ystyried ffosffad hefyd - os na, efallai y byddwch yn gwneud penderfyniad ar sail nitrad, pan fyddwch chi mewn gwirionedd yn cynyddu'r cyflenwad ffosffad wrth wneud hynny. Felly, mae gennych ganlyniad anfwriadol ac felly mae'n bwysig iawn bellach ystyried sefyllfa'r ffosffad cyn ystyried unrhyw fesur arall.
26. Gofynnodd Zoe a oes templed derbyniol o gynllun rheoli maetholion. Dywedodd Matthew Walters, Llywodraeth Cymru fod templed a llyfr gwaith digidol ar gael. Mae'n canolbwyntio ar nitrogen ar hyn o bryd. Cadarnhaodd Matthew nad oes gofyniad ffosffad o fewn y rheoliadau, ond mae'n rhywbeth y gall unigolion ei wneud eu hunain ar gyfer eu cynllun rheoli maetholion eu hunain. Gofynnodd Chris pa mor anodd fyddai hi wedyn i ymgorffori ffosffad yn hynny. Dywedodd Matthew y byddai angen newid y Rheoliadau. Ar hyn o bryd, nid oes gofyniad o fewn y rheoliadau i reoli ffosffad ar unrhyw adeg, felly byddai angen newid sylfaenol i'r rheoliadau er mwyn cynnwys ffosffad yn y dull gweithredu. Gallai hyn fynd y tu hwnt i'r gofyniad i gadw cofnodion yn unig oherwydd efallai y bydd yn rhaid i chi hefyd ystyried addasrwydd defnyddio ac unrhyw derfynau posibl pe bai'n cael ei ystyried. Awgrymodd Chris mai dyna'r syniad o fesurau amgen felly. Atebodd Matthew fod dull ar gyfer hynny, ond byddai angen asesu bryd hynny pe baech yn ystyried terfyn ffosffad er enghraifft neu lle byddai gennych

eich sgoriau/gwerthoedd N a P a allai wedyn fod yn orfodadwy ac yna bod yn rhan o'ch dull rheoli maetholion. Felly dyna lle mae cymhlethdod y cam nesaf i'w weld.

27. Soniodd Chris am fater ffermwyr tenant, a dywedodd fod Dennis ar y grŵp. Mae tipyn o faterion yn ymwneud â ffermwyr tenant sydd angen eu datrys o fewn y rheoliadau hyn, a byddwn yn tynnu sylw at hynny yn ein hadroddiad terfynol. Soniodd Dennis am gynigion amlinellol y Cynllun Ffermio Cynaliadwy ac effeithiau posibl y Cynllun hwnnw a Rheoli Rheoliadau Llygredd Amaethyddol ar ffermwyr tenant. Mae Llywodraeth Cymru'n ymwybodol o'r problemau ac mae gweithgor tenantiaid yn cael ei ffurfio i edrych ar rai ohonynt. Yn y cyfamser, gallai Llywodraeth Cymru ystyried eithrio ffermwyr tenant o'r Rheoliadau cyn belled na fydd achos o lygredd ar ddod tan y bydd ateb wedi'i ganfod. Yng nghyfarfod SFS ddydd Gwener, dywedodd Creighton fod Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod ffermwyr tenant yn grŵp arbennig, ond bod rhaid rhoi mesurau ar waith i sicrhau bod eu dulliau o ffermio yn ymarferol o dan y drefn newydd.
28. Trafododd Chris strwythur arfaethedig yr Adroddiad Mesurau Amgen a'r gofyniad i ddarparu tystiolaeth.
29. Yn ôl Marc, mae angen cyflwyno'r adroddiad i Lywodraeth Cymru erbyn 1 Hydref 2022. Bydd y grŵp yn anelu at gael adroddiad drafft ym mis Awst, ac yn ei gyflwyno i'r Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol gan roi digon o amser iddyn nhw wneud sylw.
30. Gofynnodd Zoe am farn y grŵp am yr hyn sy'n gweithio'n dda. Dywedodd Chris fod tipyn o Reoliadau lle nad yw'r grŵp yn argymhell bod angen unrhyw newidiadau mawr. Gallai olygu newid diffiniad i fod yn gliriach neu rywbeth felly. Nid ydym yn ceisio dod o hyd i broblemau lle nad ydyn nhw'n bodoli. Mae'r daenlen yn nodi'r elfennau hynny lle nad oes gennym unrhyw broblemau gyda rheoliad penodol.
31. Atgoffodd Dennis y grŵp, mai go brin y bydd y grŵp mesurau amgen hyn yn cynnig cynllun newydd gwych i ddisodli'r Rheoliadau. Dywedodd Llywodraeth Cymru y byddai'n edrych ar unrhyw ffyrdd amgen o weithredu'r rheoliadau presennol, ond mae'n rhaid iddo fod o fewn rheoliadau. Roedd Chris yn cytuno, a dywedodd fod hyn yn ymwneud â cheisio sicrhau bod y rheoliadau'n haws i'w deall, yn haws i'w gweithredu ac yn fwy effeithiol o ran cyrraedd y canlyniad yr ydym i gyd yn ceisio ei gyflawni. Dywedodd Creighton os edrychwch ar y cofnod, y rheoliadau sy'n delio â'r cyfnod caeedig a'r storfa gynyddol, ein bod wedi edrych ar y cyfnod caeedig a'r defnydd o dechnoleg. Os darllenwch chi adroddiad Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig, mae'n gwneud argymhellion o ran technoleg a gwagaru. Nid yw'n gwneud unrhyw argymhelliad am y storfa gynyddol. Byddech chi'n meddwl y byddai'n rhaid i chi gael mwy o le storio oherwydd pe bai rhywun yn ei chael hi'n anodd rheoli unrhyw ddarpariaeth amgen neu reoli eu maetholion ar y fferm, yna byddai hynny'n golygu bod angen mwy o storfa fel dewis os nad oes dewis arall i'w gael - byddai'n rhoi hyblygrwydd i'r ffermwr.
32. Gofynnodd Creighton a oes unrhyw un o fewn y diwydiant wedi awgrymu dull amgen. Hefyd, atgoffodd Creighton y grŵp mai Lesley Griffiths AS a'i chynghorwyr fydd yn gwneud y penderfyniad, nid y Senedd nac unrhyw bwyllgor o'r Senedd; felly, mae'n rhaid i ni gofio ystyried y gynulleidfa wrth wneud unrhyw argymhellion.

33. Diolchodd Chris i Marc Williams a Bronwen Martin, CNC am eu cymorth gydol y broses hon.

Eitem 5 Diweddariadau cyffredinol

34. Dyma gyfle i aelodau rannu'r hyn mae eu sefydliadau yn ei wneud ar hyn o bryd, yn enwedig cyn Sioe Amaethyddol Frenhinol Cymru (Y Sioe Fawr).

35. Dywedodd Marc y bydd gan CNC stondin a'r thema eleni yw 'Ansawdd Dŵr'. Anogodd Marc y rhai sy'n bwriadu dod i'r sioe i ymweld â stondin CNC. Brynhawn dydd Mawrth bydd cyflwyniad ar stondin CNC gan John Owen (Gelli Aur) ar Brosiect Slyri, ynghyd â Chris Clarke, GEA a fydd yn trafod yr agwedd fasnachol a sut y mae modd ei hymgorffori yn y math yma o dechnoleg.

36. Dywedodd Dennis y bydd yn mynychu'r sioe ddydd Llun, dydd Mawrth a dydd Mercher. Maen nhw wedi cynllunio cyfarfodydd i drafod materion tenantiaeth. Awgrymodd Dennis gyfarfod i drafod y Mesurau Amgen a'r materion yn ymwneud â thenantiaethau. Dywedodd Chris na fydd yn mynychu'r sioe ond ei fod yn hapus i gwrdd â Dennis rywbryd arall i drafod hynny.

37. Cadarnhaodd Creighton y byddai yn y sioe ddydd Llun a'i fod wedi cael gwahoddiad i ambell ddigwyddiad yn ystod y dydd.

38. Yn ôl Einir mae gan Cyswllt Ffermio stondin a fydd yn cael ei staffio'n llawn gydol yr wythnos. Bydd gan Cyswllt Ffermio bresenoldeb ym mhafiliwn Llywodraeth Cymru hefyd. Fel bob amser, mae themâu yn cynnwys busnes, da byw a'r tir. Mae yna gefnogaeth barhaus i ffermwyr, gan gynnwys clinigau tail a phridd a chlinigau seilwaith. Mae swyddfeydd datblygu ar draws Cymru hefyd wedi anfon e-byst yr wythnos diwethaf yn manylu ar yr hyn sydd angen i ffermwyr ei wneud a phryd, ynghyd â gwybodaeth am strwythur cymorth Cyswllt Ffermio.

Wrth gynllunio, mae gan Cyswllt Ffermio gymorthfeydd lle gall pobl ddysgu sut i roi map risg at ei gilydd a chymorthfeydd lle gall pobl ddysgu sut i gwblhau'r llyfr gwaith. Nid yw Cyswllt Ffermio wedi trefnu'r dyddiadau ar gyfer y rheiny eto, ond maen nhw ar y gweill ac mae rhestr wrth gefn o bobl sydd â diddordeb.

Ar ôl darllen y cynnig amlinellol ar gyfer y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, dywedodd Creighton y bydd llawer iawn o waith yn disgyn ar ysgwyddau Cyswllt Ffermio. Bydd angen i Cyswllt Ffermio newid ei ffordd o weithio, sy'n rhywbeth i'w gadw mewn cof dros y misoedd nesaf.

39. Dywedodd Sarah Jones fod gan Dŵr Cymru stondin gorfforaethol yn ardal yr amgylchedd. Dywedodd Sarah mai ei thîm sy'n gwneud gwaith rheoli dalgylch yw un o noddwyr CFFI Cymru, felly yn gyfnewid am hynny, bydd ganddyn nhw stondin fach yno hefyd i bobl ddysgu am waith rheoli dalgylch a chofrestru ar gyfer y cynllun gwaredu plaladdwyr am ddim. Ddydd Llun, bydd Dŵr Cymru hefyd yn lansio'r Cynllun Llysgenhadon Ffynhonnell Dŵr, lle byddant yn cynnig dau leoliad i aelodau CFFI Cymru ddod i weithio gyda nhw drwy'r flwyddyn o bryd i'w gilydd gyda'r Tîm Dalgylch.

40. Cyflwynodd Zoe grynodedeb o ddigwyddiadau stondin CNC yn ystod wythnos y Sioe.

41. Soniodd Dennis ei fod wedi mynychu cyfarfod Rhanddeiliaid ID Da Byw yn ddiweddar. Mae grantiau newydd wedi'u cyhoeddi yn Lloegr ar gyfer storfeydd slyri, ond er mwyn cael grant mae'n rhaid cael storfa am chwe mis (cynnydd o 4 mis i 6 mis) a gorchuddio'r storfa. Dywedodd Dennis y bydd y grant ar gael ar gyfer naill ai storfa newydd neu uwchraddio un sy'n bodoli'n barod, rhywbeth mae'r grŵp hwn wedi gofyn amdano dro ar ôl tro i Lywodraeth Cymru. Awgrymodd Zoe y gallai cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru gymryd y sylwadau hyn oddi arnynt. Dywedodd Matthew y byddai'n edrych ar y gofynion yn Lloegr ac yn gweld beth yw'r gwahaniaethau.
42. Gofynnodd Dennis a oedd diweddariad am rifyn nesaf cylchlythyr yr Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol. Dywedodd Marc y byddai'n gofyn i Katy am wybodaeth.

PG 06 Gorffennaf: Marc Williams, CNC i ofyn i Katy Simmons, CNC am ddiweddariad ynghylch rhifyn nesaf cylchlythyr yr Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol.

Eitem 6 Unrhyw fater arall

43. Soniodd Polina Cowley, Llywodraeth Cymru fod y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol yn canolbwyntio'n bennaf ar lygredd dŵr, fodd bynnag, mae yna faes arall o lygredd amaethyddol sef aer ac ansawdd aer. O ran ansawdd aer ac amonia, mae'r byd amaeth yng Nghymru yn cyfrannu at 90% o'r llygredd hwn. Cyflwynodd Polina daflen 'Allyriadau Amonia Amaethyddol' Llywodraeth Cymru a fydd yn cael ei lansio yn y Sioe Fawr wythnos nesaf. Soniodd Polina am ddogfen [Llywodraeth Cymru - canllawiau i God Ymarfer Da mewn perthynas â lleihau faint o amonia a gollir o amaethyddiaeth yng Nghymru \(2019\)](#). Yn flaenorol, datblygodd Cyswllt Ffermio adnodd i helpu ffermwyr ddeall sut allan nhw wella ansawdd aer - [Cyswllt Ffermio - Gwella Ansawdd Aer](#).

Gofynnodd Zoe a oes modd nodi tystiolaeth o hyn yn lleol (e.e. gwyddor dinasyddion, monitro lleol ac ati) er mwyn i bobl allu deall y mater. Dywedodd Polina fod hwn yn bwynt da a gwnaeth nodyn o hyn - sut gall pobl 'weld' y mater neu'r broblem - mae modd gweld/blasu dŵr, ond does dim modd gwneud hynny gydag aer. Dywedodd Polina fod amonia yn 'cysylltu' â mwrllwch (CO₂) a dyna lle mae'r broblem ar ei gwaethaf, a mater gronynnol yn cael ei ffurfio. Soniodd Polina am astudiaeth gan Brifysgol Bangor a awgrymodd bod pob £1 a wariwyd yn y DU ar leihau allyriadau amonia yn arwain at £23 mewn arbedion iechyd cymunedol. Hefyd, bu Polina yn trafod effaith amonia ar iechyd a diogelwch ffermydd, yn enwedig iechyd cardiofasgwlaidd ac anadlol ffermwyr. Gofynnodd Zoe a oes tystiolaeth y gellir ei rhannu - dywedodd Polina fod astudiaethau ar gael, a bod cofnod o'r effeithiau ond awgrymodd bod ymwybyddiaeth isel ohono.

PG 07 Gorffennaf: Polina Cowley, Llywodraeth Cymru i rannu gwybodaeth a thystiolaeth am effeithiau allyriadau amonia ar iechyd a diogelwch ffermwyr.

Dywedodd Creighton fod nifer o achosion proffil uchel wedi bod yng Ngogledd Iwerddon sy'n cofnodi peryglon allyriadau amonia. Gofynnodd Creighton lle mae'r daflen amonia ar gael. Dywedodd Polina fod yr offeryn rhyngweithiol yn fyw ar wefan Cyswllt Ffermio am gyfnod. Bydd y daflen yn cael ei lansio yn y Sioe Fawr.

Soniodd Chris Mills fod Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021, yn Rheoliad 15 'Rheoli'r modd y taenir gwrtaith nitrogen', yn nodi

gofyniad taenu o dan 4 metr o'r ddaear. Roedd y grŵp Mesurau Amgen yn rhyfeddu ei fod cymaint â 4 metr ac poeni am effaith allyriadau hynny. Un mân welliant mae'r grŵp wedi ei ystyried yw pam mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu gwasgaru hyd at uchder o 4 metr oherwydd byddai hynny heb os yn creu allyriadau amonia. Gofynnodd Chris os yw hon yn broblem mor ddifrifol, yna pam nad yw'n cael ei rheoleiddio. Dywedodd Polina nad yw wedi'i reoleiddio yn anffodus, nid oes rheoliad o'r UE na'r DU, ond bod yna 'Canllawiau i Gôd Ymarfer Da mewn perthynas â lleihau faint o amonia a gollir o amaethyddiaeth yng Nghymru' ac mae gan y DU [DEFRA - Clean Air Strategy \(2019\)](#). Dywedodd Polina fod y DU hefyd wedi ymgynghori ar leihau allyriadau amonia o wrteithiau wrea y llynedd ([DEFRA Consultation - Reducing ammonia emissions from urea fertilisers](#)). Mae Gogledd Iwerddon ar hyn o bryd yn arwain ar leihau allyriadau amonia ac wedi buddsoddi mewn adnoddau, ymchwilio i'r pwnc, ac wrthi'n treialu pethau gwahanol. Dywedodd Polina fod cyfle i'r Is-Grŵp ar Lygredd Amaethyddol gael sgwrsiau, codi ymwybyddiaeth a cheisio helpu i gynnig rhai atebion.

Dywedodd Sarah Hetherington, CNC fod y Grŵp hwn wedi gweithio ar fesurau gwahanol i ddatrys materion drwy arloesi, cyngor ac arweiniad, cymell, rheoleiddio a dulliau gwirfoddol. Nododd Sarah fod anghysondeb rhwng dŵr ac aer a sut mae'r pynciau hyn yn cael eu trin. Er enghraifft, os ydych chi'n adeiladu storfa slyri newydd, gallwch ddileu hynny yn erbyn eich treth busnes fferm o fewn y flwyddyn (helpu buddsoddi). Fodd bynnag, pan ddaw hi'n fater o roi gorchudd am ben y storfa honno, mae hynny'n cael ei ddileu dros 33 mlynedd ar 3%. Dywedodd Sarah nad yw amonia yn cael ei ystyried yn fater cyfartal yn y mesur hwnnw, ac awgrymodd y gallai fod yn werth edrych ar ochr fuddsoddi pethau fel un o'r atebion posibl. O ran maetholion, mae'n rhaid i ni eu hystyried gyda'i gilydd, neu fe fyddwn yn cyfnewid llygredd (e.e. os ydyn ni'n datrys problem amonia, gallai olygu fod mwy o nitradau yn mynd i'n systemau), felly mae angen dull cyfannol arnom. Diolchodd Polina i Sarah am ei sylwadau yn enwedig ar gyfnewid llygredd a chytunodd fod angen i ni edrych ar y darlun ehangach a meddwl am ddull cyfannol sy'n gweithio, heb effeithio ar lygryddion eraill.

Soniodd Dennis fod marwolaethau sylweddol wedi bod gyda phobl yn mynd i mewn i bydewau derbyn storfeydd slyri, gan fod elifion silwair wedi'i gymysgu â slyri yn cynhyrchu sylffwr deuocsid, sy'n eich lladd mewn tua hanner munud. Cyfeiriodd Dennis am gyflwyniad yn y seminar Aer Glân oedd yn disgrifio sut roedd amonia yn cyfuno â sylffwr deuocsid mewn planhigion ac yn cynhyrchu gronynnau, a oedd yn lladd cennau a mwsoglau oedd yn tyfu ar y coed. Dywedodd Polina mai dim ond yn un rhan o nwyon slyri gwenwynig sy'n lladd pobl yw amonia, ac nid dim ond storfeydd slyri yn unig - sy'n golygu pam mae mesurau da ar gyfer cadw da byw dan do yn hollbwysig.

Diolchodd Zoe i Polina am godi'r mater ac am y drafodaeth bwysig a diddorol iawn hon am allyriadau amonia. Mae mwy o waith i'w wneud ar y pwnc hwn, wrth inni symud ymlaen.

44. Mae cyfarfod nesaf yr Is-grŵp wedi'i drefnu ar gyfer 15 Awst 2022.

Diwedd y cyfarfod